**Llywodraeth Cymru**

**Datgan Parth Atal Ffliw Adar Cymru gyfan**

1. Mae Gweinidogion Cymru wedi cynnal asesiad risg o dan erthygl 6(1) o Orchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Tarddu o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006 (O.S. 2006.2927 (Cy, 262)[1] fel y'i diwygiwyd ("y Gorchymyn")

2. Er mwyn lleihau'r risg y gall adar gwyllt neu unrhyw ffynhonnell arall drosglwyddo ffliw adar i ddofednod ac adar caeth eraill, yn dilyn y cynnydd yn lefel y risg o drosglwyddo ffliw adar effeithio ar Gymru, mae Gweinidogion Cymru yn unol ag erthygl 6(1) o'r Gorchymyn, o'r farn ei bod yn angenrheidiol datgan Cymru gyfan, fel y'i disgrifir yn Atodlen 6 i'r datganiad hwn, yn Barth Atal Ffliw Adar.

3. Yn unol ag erthyglau 6(2) a 6(4) o'r Gorchymyn ac ar ôl ystyried y meini prawf a nodir yn erthygl 6(3), mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gosod y mesurau canlynol yn y Parth Atal Ffliw Adar (AIPZ) er mwyn lleihau'r risg i adar gwyllt neu unrhdigyw ffynhonnell arall drosglwyddo ffliw adar i ddofednod neu adar caeth eraill.

4. Rhaid i bawb sy'n cadw dofednod ac adar caeth eraill, gan gynnwys adar anwes, yn y Parth Atal Ffliw Adar gydymffurfio â'r mesurau bioddiogelwch gofynnol a nodir yn Atodlen 1 i'r datganiad hwn (yn amodol ar baragraffau 7 ac 8 isod).

5. Rhaid i bob ceidwad sy'n cadw 500 neu fwy o ddofednod neu adar caeth eraill ar eiddo yn unrhyw ran o'r Parth Atal Ffliw Adar gydymffurfio â'r mesurau yn Atodlen 1 a chydymffurfio yn ogystal â'r mesurau yn Atodlen 2 i'r datganiad hwn (yn amodol i'r paragraff canlynol).

6. Mae ceidwaid dofednod neu adar caeth eraill ar eiddo sydd wedi'i drwyddedu o dan Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981 wedi'u heithrio rhag gofynion Atodlen 2.

7. Mae'r darpariaethau yn Atodlen 3 i'r datganiad hwn yn gymwys yn y Parth Atal Ffliw Adar i bob ffermwr adar hela, ceidwaid adar hela ac unrhyw un sy'n ymwneud â magu, rhyddhau neu saethu adar hela.

8. Rhaid i'r holl geidwaid yn yr ardal y cyfeirir ati yn Atodlen 6 sydd:
   (i) yn cadw 50 neu fwy o ddofednod neu adar caeth eraill neu unrhyw gyfuniad ohonynt; neu sydd
   (ii) yn cadw llai na 50 o ddofednod; ac nad
   (iii) ydynt wedi'u trwyddedu o dan Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981;
   gydymffurfio hefyd â'r mesurau a nodir yn Atodlen 7 i'r datganiad hwn.

9. Mae'r darpariaethau yn Atodlen 4 i'r datganiad hwn yn gymwys yn y Parth Atal Ffliw Adar i bob ceidwad colomennod rasio, turturod neu Columbiformes eraill.

10. Mae darpariaethau yn Atodlen 5 i'r datganiad hwn yn gymwys yn y Parth Atal Ffliw Adar i bob ceidwad adar ysglyfaethus neu adar eraill sydd wedi'u hyfforddi i hedfan o'r

[1] O.S. 2006/2927 (Cy.262) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Orchymyn Ffliw Adar (Gwelliannau Amrywiol) (Cymru) 2023 OS /2023/1179 (Cy.206).

llaw neu o dan reolaeth dynn  yn y Parth Atal Ffliw Adar.

11. Mae'r datganiad hwn yn dirymu ac yn disodli'r datganiad o Barth Atal Ffliw Adar a wnaed ar 30 Ionawr 2025. Mae'r mesurau'n gymwys o 00:01 ar 13 Tachwedd 2025 nes y caiff y datganiad hwn ei ddiwygio neu ei ddirymu gan ddatganiad pellach.

12. Mae’r Datganiad hwn yn cael ei wneud o dan erthygl 6(1) (a) o’r Gorchymyn.

Llofnodwyd

Richard Irvine, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru

O dan awdurrdod y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig: 00:01 13 Tachwedd 2025

Gellir cael copïau o’r Datganiad a’r Gorchymyn drwy
http://gov.wales/topics/environmentcountryside/ahw/disease/avianflu/?lang=cy

*Gall peidio â chydymffurfio â’r Datganiad hwn fod yn drosedd o dan adran 72 neu 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.*

## Nodiadau:

(1) Pan gadarnheir achos o ffliw adar mewn dofednod neu adar caeth eraill ar eiddo unigol, caiff Parthau Gwarchod a Gwyliadwriaeth eu datgan i atal y clefyd rhag lledaenu y tu hwnt i'r ardal o amgylch y fferm heintiedig. Rhaid i geidwaid dofednod neu adar caeth eraill sy'n cael eu cadw o fewn Parth Gwarchod, neu Barth Gwyliadwriaeth (neu barthau rheoli dros dro neu barthau eraill dan gyfyngiadau isel eu pathogenau) gydymffurfio â'r gofynion bioddiogelwch a ddatgenir yn benodol ar gyfer parthau o'r fath. Nid yw hyn yn dileu'r rhwymedigaeth i gydymffurfio â'r mesurau bioddiogelwch ychwanegol y gofynnir amdanynt yn y Datganiad hwn, gan gynnwys mesurau bioddiogelwch uwch os oes 500 neu fwy o ddofednod neu adar caeth eraill yn yr eiddo.

(2) ystyr "dofednod" yw aderyn a fagwyd neu a gedwir mewn caethiwed at ddibenion—
(i) cynhyrchu cig neu wyau i'w bwyta neu gynhyrchion eraill dofednod;
(ii) ailstocio cyflenwadau o adar hela; neu
(iii) unrhyw raglen fridio ar gyfer cynhyrchu'r cyfryw gategorïau o adar neu'r cynhyrchion a bennir yn is-baragraffau (i) a (ii);
ond nid yw'n cynnwys unrhyw aderyn sy'n cael ei gadw at ddibenion un aelwyd, lle nad oes gan yr aderyn na'i geidwad gyswllt uniongyrchol nac anuniongyrchol â dofednod eraill neu gyfleusterau dofednod, a defnyddir yr aderyn a chynnyrch yr aderyn yn gyfan gwbl o fewn ac at ddibenion yr un aelwyd.

(3) ystyr "aderyn caeth arall" yw aderyn a gedwir yn gaeth ac nad yw'n ddofedn, ac mae'n cynnwys adar anwes ac adar a gedwir ar gyfer sioeau, rasys, arddangosfeydd, cystadlaethau, ar gyfer bridio neu i'w werthu;

(4) ystyr "ceidwad" at ddiben y datganiad hwn yw unrhyw berson sy'n gyfrifol am ddofednod neu adar caeth eraill, boed hynny'n barhaol neu dros dro, ond nid yw'n cynnwys person sy'n gyfrifol amdanynt dim ond am ei fod yn eu cludo.

(5) ystyr "eiddo" at ddibenion y Datganiad hwn yw unrhyw dir, adeilad, tŷ, sied, adardy, maes, cwb, tir wedi'i amgáu gan netin, corlan ryddhau, iard neu fan agored, a ddefnyddir i gadw dofednod neu adar caeth eraill ac sy'n cynnwys mannau ategol cyffiniol fel biniau bwyd adar, storfeydd tail adar a mannau lle mae adar yn cael eu bwydo.

(6) ystyr "man crwydro" at ddibenion y Datganiad hwn yw unrhyw fan yn yr awyr agored lle caniateir i ddofednod ac adar caeth fynd iddo ar unrhyw adeg.

(7) ystyr "dan orchudd" yw man lle gosodir bwyd a dŵr y mae'n rhaid ei orchuddio er mwyn atal adar gwyllt rhag cael mynediad iddo neu ei halogi. Ni chaniateir gosod bwyd ar y ddaear neu mewn cafnau heb eu gorchuddio y gall adar gwyllt gael mynediad atynt.

(8) ystyr "sw" ("zoo") yw sw, acwariwm neu eiddo o fewn ystyr adran 1(2) o Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981 a weithredir o dan awdurdod trwydded o dan y Ddeddf honno neu sy'n ddarostyngedig i ollyngiad, mewn cyfarwyddyd o dan adran 14(1) o'r Ddeddf, nad yw'r Ddeddf yn gymwys i'r sw honno.

(9) Mae "anseriformes" yn cyfeirio at urdd o adar sy'n cynnwys hwyaid, gwyddau ac elyrch.

(10) Mae "ratites" yn cyfeirio at grŵp o adar sy'n cynnwys estrys, emws a rheas.

(11) Mae "galliformes" yn cyfeirio at urdd o adar sy'n cynnwys twrcwn, ieir, soflieir, petrys a ffesantod

(12) Mae "adar hela" yn golygu ffesantod, petrys, grugieir coch, grugieir du neu rugieir yr eira neu hwyaid sydd wedi'u magu ar gyfer eu saethu.

(13) Nid oes unrhyw beth yn y Datganiad hwn yn dileu’r rhwymedigaethau ar geidwaid dofednod neu adar caeth eraill i fodloni'r gofynion lles anifeiliaid presennol, a dylai ceidwad sy’n poeni am addasrwydd ei amodau lletya gael cyngor preifat gan filfeddyg.

(14) Mae canllawiau ar fesurau bioddiogelwch ar gyfer dofednod ac adar a gedwir ar gael yng nghanllawiau bioddiogelwch y Ddeddf Iechyd Anifeiliaid yn Bioddiogelwch ac atal afiechyd mewn dofednod ac adar caeth | LLYW.CYMRU

(15) Rhaid i unrhyw un sy’n cadw dofednod neu adar caeth eraill gadw llygad barcud arnynt am unrhyw arwyddion o glefyd, a dylai ofyn cyngor ei filfeddyg yn syth os oes ganddo unrhyw bryderon. I gael gwybod beth i’w wneud os ydych chi'n amau bod achos o'r clefyd, ewch i Ffliw adar | LLYW.CYMRU

(16) Rhaid i unrhyw un sy'n cadw dofednod (gan gynnwys adar hela a rhywogaethau dofednod a gedwir fel anifeiliaid anwes) neu adar caeth eraill gofrestru ar y gofrestr adar cadw. Dylai’r holl wybodaeth hon gael ei diweddaru’n rheolaidd. Am fanylion pellach, gweler: Cofrestru dofednod - GOV.UK

## Atodlen 1 - Mesurau bioddiogelwch gofynnol sy’n berthnasol i bob ceidwad

1) Rhaid i bob ceidwad dofednod (gan gynnwys adar hela ac adar anwes) neu adar caeth eraill, waeth sut y cânt eu cadw, gymryd camau priodol ac ymarferol, y gellir eu dangos i arolygydd sy’n gofyn amdanynt, er mwyn sicrhau:

   (a) bod rhagofalon yn cael eu cymryd i osgoi trosglwyddo’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol halogiad y feirws i eiddo neu rhwng eiddo, o unrhyw beth, megis dillad, all ledaenu’r haint, a thrwy lanhau a diheintio cyfarpar, cerbydau ac esgidiau. Rhaid gosod dip traed yn cynnwys diheintydd dofednod cymeradwy ar y gyfradd wanhau gywir mewn mannau strategol, gan gynnwys wrth fynedfeydd ac allanfeydd pob sied neu fan awyr agored lle cedwir adar, a rhaid glanhau'r esgidiau bob amser gan ddefnyddio’r dip wrth fynd i mewn ac allan o’r mannau hynny neu fel arall, dylid newid esgidiau neu orchudd untro ar ben esgidiau wrth symud rhwng y mannau lle cedwir adar a mannau sydd heb adar;

   (b) bod bwyd, dŵr a sarn yn cael eu storio dan do a bydd camau’n cael eu cymryd i rwystro adar gwyllt rhag dod i gysylltiad â nhw ac i leihau’r risg o’u halogi gan y feirws. Rhaid gorchuddio unrhyw wellt a ddefnyddir fel sarn (deunydd dan draed) a rhaid rhwystro adar gwyllt a chnofilod rhag gallu mynd ato;

   (c) nad ydynt yn dod i gysylltiad â dofednod nac adar caeth eraill ar safle cymydog;

   (d) bod fermin yn cael eu rheoli’n effeithiol yn y rhannau hynny o’r eiddo lle cedwir dofednod neu adar caeth eraill;

   (e) na chaiff adar ysglyfaethus eu bwydo ag unrhyw eitem sy’n debygol o fod wedi’i halogi gan y feirws, gan gynnwys adar dŵr gwyllt;

   (f) bod symudiad pobl (ar wahân i mewn sw), cerbydau neu gyfarpar i’r rhan o’r eiddo lle cedwir dofednod ac oddi yno yn cael ei gyfyngu i symudiadau sy'n hanfodol i ofalu am eu lles, i gasglu wyau a'u bwydo neu symudiadau gan arolygwyr neu swyddogion ar ymweliad;

   (g) bod pob personél yn gyfarwydd ac yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol yn y Datganiad hwn;

   (h) bod cofnodion yn cael eu cadw (ar wahân i mewn sw) o bob cerbyd sy’n mynd i unrhyw ran o’r eiddo lle cedwir dofednod ac o bob person sy’n dod i gysylltiad uniongyrchol â’r dofednod;

2) Rhaid i geidwad dofednod (gan gynnwys adar hela ac adar anwes) neu adar caeth eraill, waeth sut y cânt eu cadw, gadw cofnodion o symudiadau dofednod, adar caeth a wyau, a’u dangos i arolygydd neu arolygydd milfeddygol sy'n gofyn amdanynt. Dylai'r cofnodion gynnwys:

   (a) nifer a disgrifiad (gan gynnwys rhywogaeth yr aderyn neu fath o wy) sy’n cael ei gludo neu ei farchnata;

   (b) dyddiad eu symud i'r eiddo ac oddi ar yr eiddo;

   (c) lleoliad y gyrchfan (os yn hysbys);

(d) enw a chyfeiriad y person y mae’r berchnogaeth neu y meddiant wedi ei drosglwyddo neu yn cael ei drosglwyddo iddo;

(e) enw a chyfeiriad y person y gwerthwyd neu y rhoddwyd wyau neu gynhyrchion eraill dofednod iddo.

3) Rhaid cadw cofnodion o farwolaethau'r holl ddofednod ac adar caeth eraill, a sut y cawsant eu gwaredu, a'u dangos i arolygydd sy'n gofyn amdanynt. Rhaid i'r cofnodion gynnwys:
• dyddiad y farwolaeth ac unrhyw arwyddion clinigol;
• dyddiad eu gwaredu a lleoliad y cyfleuster gwaredu sgil-gynnyrch anifeiliaid perthnasol.

4) Rhaid i geidwad dofednod (gan gynnwys adar hela ac adar anwes) neu adar caeth eraill, waeth sut y cânt eu cadw, gymryd camau priodol ac ymarferol, y gellir eu dangos i arolygydd sy'n gofyn amdanynt, er mwyn sicrhau:

(a) bod adeiladau sy’n cadw’r adar yn cael eu cynnal a’u cadw a bod diffygion a allai adael dŵr neu halogiad arall i mewn yn cael eu cywiro ar unwaith;

(b) nad yw anseriformes gan gynnwys hwyaid a gwyddau yn cael eu cadw yn yr un iard neu adeilad â rhywogaethau adar eraill (ac eithrio mewn sŵ);

5) Rhaid i geidwaid adar hysbysu'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ar unwaith am:

(a) bresenoldeb arwyddion clinigol a allai fod yn gysylltiedig â ffliw adar;

(b) unrhyw gynnydd sylweddol heb esboniad mewn morbidrwydd dyddiol (salwch) neu farwolaethau dyddiol (marwolaethau), gan gynnwys pan fo'r cynnydd hwn dair gwaith neu ragor yn fwy na chyfradd morbidrwydd neu farwolaethau dyddiol arferol yr haid;

(c) unrhyw ostyngiad sylweddol mewn cynhyrchiant wyau dyddiol gan gynnwys pan fo'r gostyngiad yn cynrychioli mwy na phump y cant (>5%) o'r cynhyrchiant wyau dyddiol cyfartalog ar gyfer y haid honno yn yr wythnos flaenorol; neu

(d) unrhyw ostyngiad sylweddol yn y cymeriant dyddiol o fwyd a/neu ddŵr, gan gynnwys lle mae'r gostyngiad yn cynrychioli mwy na phump y cant (>5%) o'r cymeriant dyddiol cyfartalog o fwyd neu ddŵr ar gyfer yr haid neu'r uned epidemiolegol honno yn yr wythnos flaenorol.

6) Lle nad yw adar yn cael eu cadw dan do, rhaid cadw dofednod neu adar caeth eraill mewn mannau awyr agored wedi'u ffensio/amgaeëdig cyn belled ag y bodlonir yr amodau canlynol:

(a) ac eithrio mewn sŵau, rhaid eu hatal rhag gallu mynd at ddŵr agored neu ferddwr trwy godi ffens o'i amgylch a lle medrir, dylid gosod netin ar byllau, merddwr, neu dir dwrlawn i atal dofednod neu adar caeth eraill rhag mynd iddynt;

(b) rhaid darparu bwyd a dŵr o dan orchudd fel na all adar gwyllt gael atynt;

(c) rhaid symud carcasau adar gwyllt cyn gynted â phosibl o'r adeiladau neu'r mannau crwydro awyr agored wedi'u ffensio y mae dofednod ac adar caeth eraill yn gallu mynd iddynt;

(d) rhaid glanhau a diheintio'n rheolaidd yr holl lwybrau cerdded concrit ac arwynebau tebyg lle gall dofednod neu adar caeth eraill neu adar gwyllt fynd iddynt.

(e) rhaid archwilio'r man crwydro yn rheolaidd i sicrhau nad yw wedi'i halogi gan blu neu dail adar gwyllt a rhaid cymryd camau rhesymol i gael gwared ar halogiad a allai fod yn bresennol cyn gynted ag y bo'n ymarferol;

(f) cyn gosod unrhyw adeiladwaith neu uned gaeedig newydd ar dir at ddiben cadw dofednod neu adar caeth eraill yn yr awyr agored, rhaid i'r ceidwad drefnu bod yr eiddo perthnasol yn cael ei archwilio ar gyfer plu neu dail adar gwyllt ac, os oes unrhyw ddeunydd o'r fath yn cael ei ddarganfod, bod y deunydd hwnnw'n cael ei waredu;

(g) rhaid cymryd mesurau i gadw adar gwyllt (gwylanod ac adar dŵr gwyllt yn enwedig) draw o'r man awyr agored a sicrhau nad yw adar gwyllt yn cael eu denu i gyffiniau'r man crwydro awyr agored;

(h) rhaid wrth fesurau i sicrhau nad yw adar gwyllt yn cael eu denu i ardaloedd sydd o dan reolaeth y ceidwad, yng nghyffiniau'r man awyr agored, ac yn arbennig i gyrsiau dŵr, cronfeydd dŵr, pyllau neu ferddwr arall;

(i) rhaid cymryd mesurau rhagweithiol (er enghraifft, offer dychryn adar, ffoil, baneri) i gadw adar gwyllt, (yn enwedig gwylanod ac adar dŵr gwyllt), o'r mannau awyr agored wedi'u ffensio neu rhag crynhoi yng nghyffiniau'r man awyr agored, yn enwedig ar ddŵr agored neu lonydd;

(j) Rhaid archwilio'r safle'n rheolaidd a chadarnhau bod yr amodau hyn yn parhau i gael eu bodloni, gan leihau'r risg o ddod i gysylltiad ag adar gwyllt.

7) Rhaid peidio â symud adar hela gwyllt gafodd eu dal yn ystod y tymor agored (o dan Ddeddf Adar Hela 1831) am o leiaf 21 diwrnod o'r dyddiad pan gawsant eu dal, oni bai bod y symudiad:

(a) yn uniongyrchol ac wedi'i drwyddedu gan arolygydd milfeddygol neu gan arolygydd o dan gyfarwyddyd arolygydd milfeddygol ac a allai fod yn destun amodau; neu

(b) o fewn yr un safle.

Rhaid i'r ceidwad gadw cofnod o'r dyddiad y cafodd yr adar hela eu dal a nifer yr adar sy'n cael eu dal bob dydd. Mae'r gwaharddiad symud 21 diwrnod yn gymwys o'r dyddiad y cafodd yr aderyn olaf ei ddal neu'r dyddiad y mae'r aderyn olaf yn cyrraedd yr eiddo lle maent i'w cadw.

Ni roddir trwydded o dan 6(a) oni bai bod arolygydd milfeddygol wedi ystyried:

(i) y risg o ledaenu ffliw adar pe bai'r drwydded yn cael ei rhoi;

(ii) effeithiolrwydd y mesurau bioddiogelwch yn y gyrchfan i atal yr adar a symudwyd rhag dod i gysylltiad ag adar eraill; a

(iii) unrhyw fesurau rhagofalus y dylid eu cymryd cyn dechrau, wrth neu ar ôl symud.

ystyr "adar hela gafodd eu dal" yng nghyd-destun y paragraff hwn yw'r arfer o grynhoi adar hela gwyllt i'w cadw mewn caethiwed er mwyn ailstocio cyflenwadau adar hela neu ar gyfer rhaglen fridio ar gyfer cynhyrchu adar o'r fath

8) Rhaid i bob ceidwad gwblhau'r rhestr wirio hunanasesu bioddiogelwch gorfodol o fewn 7 diwrnod wedi i'r Datganiad hwn ddod i rym.

## Atodlen 2 - Mesurau bioddiogelwch uwch ar gyfer eiddo â 500 neu fwy o ddofednod neu adar caeth

1) Ar ben y mesurau bioddiogelwch safonol a amlinellir yn Atodlen 1, rhaid i bob ceidwad sydd â 500 neu fwy o ddofednod neu adar caeth gymhwyso'r mesurau ym mharagraffau 2 i 4 o'r Atodlen hon yn y rhannau canlynol o'r eiddo lle cedwir adar:

   (a) rhan y dofednod/adar caeth (adar byw) (er enghraifft, yng nghod y Llew cyfeirir at y rhan hon fel  yr ardal 'Benodol'; ac yng nghod y Tractor Coch fel 'ardaloedd bioddiogelwch adar');

   (b) y rhan breifat (defnydd ategol) (er enghraifft, yng nghod y Llew cyfeirir at y rhan hon fel yr ardal 'Gyffredinol'; ac yng Nghod y Tractor Coch, fel 'ardaloedd bioddiogelwch cyffredinol'); a

   (c) y rhan mynediad cyfyngedig (rhwystr bioddiogel).

2) Mae'r mesurau canlynol yn gymwys i ran dofednod/adar caeth (adar byw) o'r eiddo:

   (a) dim ond personél hanfodol ddylai gael mynd iddyn nhw;

   (b) rhaid i geidwaid ddilyn trefn hylendid ataliol effeithiol, gan gynnwys newid dillad ac esgidiau, cyn mynd i mewn ac allan o ran yr adar byw;

   (c) dim ond cyfarpar a cherbydau hanfodol sy'n cael mynd i mewn i ran yr adar byw;

   (d) rhaid glanhau a diheintio rhannau allanol unrhyw gerbyd, gan gynnwys wagen fforch godi neu droli paledi (yn enwedig yr olwynion a bwâu olwynion) a chyfarpar sy'n mynd i mewn neu allan o ran adar byw y safle wrth iddynt fynd i mewn i'r rhan hon ac allan ohoni;

   (e) rhaid i siediau a chyfarpar gael eu glanhau a'u diheintio'n drylwyr (yn seiliedig ar arfer gorau'r diwydiant) ar ddiwedd cylch cynhyrchu a chyn i adar newydd gael eu cyflwyno; a

   (f) haid cadw cofnodion o gerbydau a phersonél sy'n mynd i mewn ac allan o ran yr adar byw.

3) Mae'r mesurau canlynol yn gymwys i ran breifat (defnydd ategol) yr eiddo:

   (a) dim ond personél hanfodol fydd yn cael mynediad, a dylai arferion bioddiogelwch llawn gael eu mabwysiadu wrth fynd i mewn ac allan o'r rhan hon o'r eiddo;

   (b) dylai'r rhan hon o'r eiddo fod yn gwbl ar wahân i ran yr adar byw, gyda ffin glir;

   (c) rhaid i wastraff a stoc trig gael eu cadw mewn cyfleusterau bioddiogel priodol yn y rhan hon o'r eiddo, gyda ffin glir rhwng rhan yr adar byw a'r rhan mynediad cyfyngedig bioddiogel; a

   (d) rhaid glanhau a diheintio rhannau allanol unrhyw gerbydau (yn enwedig olwynion a bwâu olwynion) sy'n mynd i mewn neu allan o'r rhan hon wrth iddynt fynd i mewn iddi ac allan ohoni.

   (e) Dylai cynhyrchwyr wyau sicrhau bod wyau o ansawdd eilaidd / cynnyrch eilaidd o ffermydd yn cael eu pacio, eu trin a'u storio mewn dull bioddiogel. Mae'n rhaid glanhau

hambyrddau wyau plastig a'u diheintio cyn eu defnyddio a chadw cofnodion fel a nodir yn Atodlen 1.

4) Mae'r mesurau canlynol yn gymwys i ran mynediad cyfyngedig (rhwystr bioddiogel) yr eiddo:

(a) rhaid rheoli mynediad gan y cyhoedd a dim ond gweithwyr neu gontractwyr hanfodol ddylai cael mynd i mewn i'r rhan fioddiogel hon;

(b) ni ddylai cerbydau fynd i mewn i'r rhan fioddiogel hon oni bai eu bod yn hanfodol.

(c) Rhaid i geidwaid archwilio deunydd ac adeiladwaith unrhyw adeilad sy'n cael ei ddefnyddio i gadw dofednod yn rheolaidd am dyllau a mannau sy'n gollwng, gan ganolbwyntio'n bennaf ar doeon, gwteri a phibellau dŵr. Rhaid trwsio unrhyw dyllau a mannau sy'n gollwng ar fyrder gan fod nifer o achosion diweddar o ffliw adar wedi eu cysylltu â dŵr sy'n llifo i adeilad a llifogydd.

(d) Ni ddylid bwydo adar hela gwyllt o fewn 500m i ran mynediad cyfyngedig yr eiddo os yw'r ardal hon o dan reolaeth y ceidwad.

## Atodlen 3 – Mesurau bioddiogelwch uwch ar gyfer safleoedd adar hela

1) Rhaid i unrhyw ffermwyr adar hela, ceidwaid adar hela neu reolwyr helfeydd sicrhau bod unrhyw un sy'n ymwneud â magu neu ryddhau adar hela, yn ogystal â'r mesurau a nodir yn Atodlen 1 ac Atodlen 2 (lle bo'n berthnasol), yn cymhwyso'r mesurau yn yr Atodlen hon.

2) Rhaid i bob unigolyn sy'n mynd i mewn i gorlan fagu neu gorlan ryddhau sicrhau bod eu dillad yn lân wrth fynd i mewn i'r gorlan.

3) Rhag lledaenu ffliw adar rhwng corlannau rhyddhau ac ardaloedd rhyddhau, rhaid i bob unigolyn wneud un neu'r llall o'r canlynol wrth fynd i mewn ac allan o bob corlan ryddhau:

   (a) defnyddio dip traed sy'n cynnwys diheintydd dofednod a gymeradwywyd gan y Llywodraeth ar y gyfradd wanhau gywir. Dylai'r diheintydd fod o leiaf at y ffêr/pigwrn ac o dan orchudd er mwyn osgoi ei fod yn cael ei wanhau gan law neu ddod i gysylltiad â golau UV. Dylid ailgyflenwi diheintydd yn rheolaidd. Cyn defnyddio'r dip traed, defnyddiwch frwsh i dynnu unrhyw bridd neu ddeunydd organig oddi ar eich esgidiau a rhowch sylw arbennig i'r gwadnau. Dylid gosod y dip traed mor agos at y fynedfa â phosibl.

   (b) defnyddio esgidiau pwrpasol pan fyddwch y tu mewn i'r gorlan ryddhau – gadewch esgidiau cyffredinol y tu allan i'r gorlan ryddhau a pheidiwch â cherdded ar y ddaear y tu allan i'r gorlan ryddhau yn yr esgidiau pwrpasol.

4) Cyn mynd i mewn i eiddo lle mae adar yn cael eu cadw, rhaid glanhau a diheintio y tu allan i unrhyw gerbydau. Rhaid glanhau a diheintio tu allan cerbydau sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd ar y safle (a allai gynnwys sawl eiddo) bob tro y byddant yn ail-fynd i mewn i'r safle ar ôl gadael.

5) Mae'r mesurau canlynol yn gymwys i orsafoedd bwydo a dyfrio:

   (a) rhaid bod un orsaf fwydo o leiaf fesul 60 o adar hela a ryddhawyd i leihau dwysedd adar hela fesul gorsaf. Ar gyfer ffesantod, dylid gosod cafnau bwydo mewn ardaloedd maen nhw'n hoffi bwyta ond sydd yn llai deniadol i adar gwyllt;

   (b) rhaid archwilio gorsafoedd bwydo a dyfrio yn ddyddiol a'u glanhau fel y bo'n briodol i gael gwared ar garthion a phlu;

   (c) rhaid i orsafoedd bwydo fod o dan orchudd er mwyn eu hatal rhag cael eu halogi â baw adar gwyllt. Lle bo'n bosibl, dylid gorchuddio cafnau yfed hefyd;

   (d) ystyried symud gorsafoedd bwydo a dyfrio yn rheolaidd (ac o leiaf unwaith yr wythnos) er mwyn osgoi cronni carthion a phlu;

   (e) rhaid gwaredu unrhyw fwyd sydd wedi sarnu, a allai ddenu adar gwyllt, bob dydd;

   (f) ni ddylid bwydo ffesantod a gedwir mewn corlannau rhyddhau o fewn 50 metr i gorff o ddŵr sy'n cael ei fynychu'n rheolaidd gan hwyaid ac adar dŵr eraill;

   (g) ni ddylid bwydo adar hela sy'n cael eu cadw mewn corlannau rhyddhau o fewn 500 metr i unrhyw ddofednod nac adar caeth eraill; a

   (h) rhaid rheoli fermin yn effeithiol mewn corlannau rhyddhau.

6) Rhaid archwilio adar hela sy'n cael eu cadw mewn corlannau rhyddhau bob dydd am arwyddion o ffliw adar. Rhaid i unrhyw adar sâl gael sylw priodol ar unwaith, a dylid cynnwys milfeddyg lle bo angen. Rhaid rhoi gwybod i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ar unwaith os oes unrhyw amheuaeth o ffliw adar. Mae rhagor o wybodaeth am les adar hela ar gael yn: Cod ymarfer er lles adar hela sy'n cael eu magu at ddibenion chwaraeon - GOV.UK

7) Bob dydd, rhaid i geidwaid adar hela chwilio'r tir o fewn a hyd at radiws o 50 metr o amgylch perimedr y corlannau rhyddhau (tra'u bod yn cael eu defnyddio) neu lle mae adar yn cael eu bwydo a'u dwrhau, am garcasau adar hela marw a/neu adar gwyllt marw.

8) Rhaid i unrhyw geidwad adar hela, waeth sut maent yn cael eu cadw, gadw cofnodion o nifer yr adar a roddir mewn corlannau rhyddhau, ymwelwyr a manylion morbidrwydd a marwolaethau adar, a symudiadau ar ac oddi ar yr eiddo, a sicrhau eu bod ar gael i arolygydd neu arolygydd milfeddygol ar alw. Dylai'r cofnodion gynnwys:

(a) dyddiad(au) gosod adar mewn corlannau rhyddhau neu ardaloedd rhyddhau, a'u nifer

(b) dyddiad a nifer y marwolaethau adar, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu difa;

(c) dyddiad dechrau unrhyw arwyddion clinigol sy'n awgrymu ffliw adar;

(d) dyddiad ac enw'r ymwelwyr â'r eiddo (gan gynnwys staff), a phwrpas yr ymweliad â'r eiddo; a

(e) dyddiad a manylion danfoniadau, casgliadau a symudiadau adar byw i'r eiddo neu oddi yno (a manylion cyswllt gan gynnwys enw a rhif ffôn).

9) Dylid rhoi gwybod am unrhyw adar hela gwyllt marw (lle nad ydych yn gwybod beth yw achos y farwolaeth), a gwylanod, adar dŵr neu adar ysglyfaethus marw i Defra gan ddefnyddio'r gwasanaeth adrodd ar-lein ar gyfer adar gwyllt marw. Fel arall, gellir rhoi gwybod am adar gwyllt marw dros y ffôn: 03459 33 55 77 (cliciwch i weld ffioedd galwadau). Dylai unigolion gofnodi'r rhif cyfeirnod unigryw fel tystiolaeth y rhoddwyd gwybod am y digwyddiad . Bydd yr adroddiad yn cael ei frysbennu a gellir casglu'r carcasau i'w profi. Os na chaiff ei gasglu o fewn 96 awr, gellir tybio nad yw'n ofynnol ar gyfer profion Ffliw Adar, a rhaid gwaredu'r carcasau yn briodol. I gael gwybodaeth am waredu carcasau, gweler: Symud a gwaredu adar gwyllt marw

## Atodlen 4 - Rhyddhau colomennod rasio, turturod a Columbiformes eraill

1) Mae Atodlen 1 i'r datganiad hwn yn ddarostyngedig i'r darpariaethau canlynol, sy'n gymwys i bob ceidwad colomennod rasio, turturod neu Columbiformes eraill yn y Parth Atal Ffliw Adar:

   (a) Gall ceidwaid adael eu hadar allan dros dro am gyfnod byr cyn bwydo bob dydd i fodloni gofynion lles yr aderyn am hyd at awr. Ni ddylid gadael atigau/tai adar ar agor am sawl awr er mwyn i'r adar fynd a dod fel y mynnent. Rhaid lleihau'r cyswllt rhwng y colomennod rasio, turturod neu Columbiformes eraill ag adar gwyllt lle bynnag y bo modd, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol .

   (b) Gellir cludo colomennod o'r un atig/colomendy i bwynt gryn bellter o'r atig/colomendy cartref a'u gollwng/rhyddhau a chaniatáu iddynt ddychwelyd i'r sied/colomendy fel rhan o raglen hyfforddi a chyflyru. Rhaid glanhau a diheintio'r cerbyd a ddefnyddir a'r basgedi/blychau gan ddefnyddio diheintydd a gymeradwyir gan y llywodraeth.

   (c) Ar yr amod bod y crynhoad wedi'i gofrestru gydag APHA ac y cydymffurfir ag amodau'r "drwydded gyffredinol i drefnu ffair, marchnad, sioe, arddangosfa neu gynulliad arall sy'n golygu casglu adar caeth ynghyd yng Nghymru", caniateir rasio colomennod a hyfforddiant o sied i sied tra bo'r Parth Atal Ffliw Adar mewn grym. Gellir rhoi adar mewn basged, eu marcio a'u cludo i safle rhyddhau a'u gollwng i hedfan yn ôl i'w sied/colomendy cartref. Rhaid glanhau a diheintio'r cerbyd/lori gludo a ddefnyddir a'r basgedi/blychau gan ddefnyddio diheintydd a gymeradwyir gan y llywodraeth.

   (d) Gellir cludo colomennod, turturod a Columbiformes eraill i leoliad arall a'u gollwng i hedfan yn rhydd mewn digwyddiadau, ar yr amod bod yr adar naill ai'n cael eu casglu eto a'u dychwelyd adref cyn gynted ag y bo'n ymarferol neu eu bod yn hedfan yn ôl i'w cartref eu hunain. Dylid cymryd gofal i osgoi lleoliadau lle ceir nifer fawr o adar gwyllt neu ddofednod domestig. Crynhoad adar yw digwyddiad lle ceir adar o fwy nag un eiddo a rhaid ei gofrestru gydag APHA a bodloni amodau'r "drwydded gyffredinol i drefnu ffair, marchnad, sioe, arddangosfa neu gynulliad arall sy'n golygu casglu adar caeth ynghyd yng Nghymru."

## Atodlen 5 - Hedfan adar ysglyfaethus a rhywogaethau eraill (ac eithrio anseriformes a galliformes) o'r llaw neu o dan reolaeth dynn

1) Mae Atodlen 1 i'r datganiad hwn yn ddarostyngedig i'r darpariaethau canlynol, sy'n gymwys i bob ceidwad adar ysglyfaethus neu rywogaethau adar eraill sydd wedi'u hyfforddi i hedfan o'r llaw neu o dan reolaeth dynn yn y Parth Atal Ffliw Adar:

   (a) Gall ceidwaid adael eu hadar allan dros dro a'u hedfan o'u llaw bob dydd i fodloni gofynion lles adar am hyd at awr bob dydd. Ni ddylid gadael atigau/tai adar ar agor i'r adar fynd a dod fel y mynnent. Rhaid lleihau'r cyswllt rhwng yr adar hyn ag adar gwyllt lle bynnag y bo modd, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

   (b) Gellir cludo aderyn ysglyfaethus a ddefnyddir ar gyfer rheoli plâu i le arall gryn bellter o'r eiddo cartref, ar yr amod nad yw'r lle hwnnw mewn parth rheoli clefydau gafodd ei ddatgan o dan Orchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006 (fel y'i diwygiwyd), ac sy'n cael eu hedfan o'r llaw at ddiben rheoli plâu. Rhaid glanhau a diheintio'r cerbyd/lori gludo a ddefnyddir a'r basgedi/blychau gan ddefnyddio diheintydd a gymeradwyir gan y llywodraeth.

   (c) Ar yr amod bod y crynhoad wedi'i gofrestru gydag APHA ac y cydymffurfir ag amodau'r "drwydded gyffredinol i drefnu ffair, marchnad, sioe, arddangosfa neu gynulliad arall sy'n golygu casglu adar caeth ynghyd yng Nghymru", caniateir crynhoi adar ysglyfaethus neu rywogaethau adar eraill sydd wedi'u hyfforddi i hedfan o'r llaw neu o dan reolaeth dynn, ac eithrio anfseriformes a galliformes, tra bo'r Parth Atal Ffliw Adar mewn grym. Rhaid glanhau a diheintio'r cerbyd/lori gludo a ddefnyddir a'r basgedi/blychau gan ddefnyddio diheintydd a gymeradwyir gan y llywodraeth.

   (d) Caniateir i adar ysglyfaethus a rhywogaethau eraill (ac eithrio anseriformes a galliformes) gael eu cludo i leoliad arall a'u gollwng i hedfan o'r llaw neu o dan reolaeth dynn mewn digwyddiadau ar yr amod bod yr adar yn cael eu casglu eto a'u dychwelyd i'w cartref cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Dylid cymryd gofal i osgoi lleoliadau lle ceir nifer fawr o adar gwyllt neu ddofednod domestig. Crynhoad adar yw digwyddiad lle ceir adar o fwy nag un eiddo a rhaid ei gofrestru gydag APHA a bodloni amodau'r "drwydded gyffredinol i drefnu ffair, marchnad, sioe, arddangosfa neu gynulliad arall sy'n golygu casglu adar caeth ynghyd yng Nghymru."

   (e) Os wrth hedfan yr aderyn o'r llaw neu o dan reolaeth dynn, y collir cyswllt gweledol â'r aderyn am fwy na munud neu os bydd yr aderyn yn dal aderyn gwyllt arall, rhaid i'r aderyn gael ei ynysu a'i fonitro'n glos am gyfnod o 14 diwrnod cyn y caiff hedfan yn rhydd o'r llaw neu o dan reolaeth dynn eto.

## Atodlen 6 - Parth Atal Ffliw Adar

Mae'r Parth Atal Ffliw Adar yn cwmpasu Cymru gyfan.

Ceir map rhyngweithiol yn:
[https://defra.maps.arcgis.com/apps/webappviewer/index.html?id=8cb1883eda5547c6b91b5d5e6aeba90d](https://defra.maps.arcgis.com/apps/webappviewer/index.html?id=8cb1883eda5547c6b91b5d5e6aeba90d)



## Atodlen 7 – Gofyniad i ddofednod ac adar caeth eraill gael eu lletya neu eu cadw fel arall ar wahân i adar gwyllt

(1) Rhaid cadw dofednod ac adar caeth eraill yn yr ardal y cyfeirir ati yn Atodlen 6 (yn amodol ar baragraffau 2 a 3 isod). Rhaid gwneud hyn yn unol â'r gofynion canlynol –

(a) archwiliad rheolaidd o'r adeilad lle mae adar yn cael eu cadw a sicrhau ei fod yn addas at ddibenion lletya'r adar yn ddiogel ac yn sicr ac ar wahân i adar gwyllt;

(b) rhaid i unrhyw agoriadau yn yr adeilad gael eu gorchuddio â rhwyll neu netin i atal adar gwyllt rhag mynd i mewn. Ni chaiff y tyllau yn y rhwyll fod yn fwy na 25mm x 25mm;

(c) Rhaid cadw pob mewnfa ac allfa system awyru mewn cyflwr da a naill ai (i) eu gorchuddio â rhwyll neu netin addas eu maint (maint twll hyd at 25mm x 25mmm) neu (ii) os oes system awyru weithredol yn bresennol, rhaid i'r llafnau fod yn symud yn barhaus 24 awr y dydd;

(d) rhaid cadw bwyd dofednod a sarn y tu mewn i'r adeilad;

(e) rhaid wrth fesurau i sicrhau nad yw adar gwyllt yn cael eu denu i ardaloedd sydd o dan reolaeth y ceidwad, yn arbennig i gyrsiau dŵr, cronfeydd dŵr, pyllau neu ddŵr llonydd arall;

(f) rhaid glanhau a diheintio'n rheolaidd yr holl lwybrau cerdded concrit ac arwynebau tebyg lle gall dofednod neu adar caeth eraill neu adar gwyllt fynd iddynt.

(2) Os nad yw'n bosibl cartrefu dofednod neu adar caeth eraill yn unol â pharagraff 1 o'r Atodlen hon am resymau lles, caniateir datgymhwyso gofynion y paragraff hwnnw, cyn belled ag y bodlonir y gofynion canlynol –

(a) rhaid i'r ardal awyr agored fod wedi'i hamgáu'n llawn â rhwyll wifren, netin neu ddeunydd arall sy'n gallu atal adar gwyllt rhag mynd i mewn. Ni chaiff twll rhwyll neu netin fod yn fwy na 25mm x 25mm;

(b) rhaid cyfyngu mynediad at ddŵr sefyll agored neu barhaol trwy ffensio a gosod netin am byllau, dŵr llonydd, a thir dwrlawn;

(c) rhaid cadw'r adar oddi wrth adar gwyllt mewn mannau awyr agored amgaeëdig neu wedi'u hamgáu'n llwyr â netin;

(d) nad ydynt yn dod i gysylltiad â dofednod nac adar caeth eraill ar safle cymydog;

(e) rhaid cadw bwyd dofedndod a sarn dan do;

(f) rhaid darparu bwyd a dŵr o dan orchudd fel na all adar gwyllt gael atynt;

(g) rhaid symud unrhyw garcasau adar gwyllt ar unwaith o gyffiniau'r ardal awyr agored amgaeëdig;

(h) rhaid glanhau a diheintio'n rheolaidd yr holl lwybrau cerdded concrit ac arwynebau tebyg lle gall dofednod neu adar caeth eraill neu adar gwyllt fynd iddynt.

(i) rhaid archwilio'r ardal awyr agored amgaeëdig yn rheolaidd i sicrhau nad yw wedi'i halogi gan blu neu dail adar gwyllt a rhaid cymryd camau rhesymol i gael gwared ar halogiad a allai fod yn bresennol cyn gynted ag y bo'n ymarferol;

(j) cyn gosod unrhyw strwythurau neu unedau amgaeëdig newydd ar dir at ddibenion cadw dofednod neu adar caeth eraill yn yr awyr agored, rhaid i'r ceidwad drefnu archwilio'r safle perthnasol am blu a thail adar gwyllt ac, os darganfyddir deunydd o'r fath, cymerir y deunydd hwnnw o'r safle; rhaid cymryd mesurau i atal adar gwyllt (yn enwedig gwylanod, corvidiaid ac adar dŵr gwyllt) rhag mynd i gyffiniau'r ardal awyr agored amgaeëdig,

(k) rhaid wrth fesurau i sicrhau nad yw adar gwyllt yn cael eu denu i ardaloedd sydd o dan reolaeth y ceidwad, yng nghyffiniau'r man awyr agored amgaeëdig, ac yn arbennig i gyrsiau dŵr, cronfeydd dŵr, pyllau neu ddŵr llonydd arall;

(l) rhaid cymryd mesurau rhagweithiol (er enghraifft, offer dychryn adar, ffoil, baneri) i gadw adar gwyllt, (yn enwedig gwylanod ac adar dŵr gwyllt), o'r mannau awyr agored amgaeëdig neu rhag crynhoi yng nghyffiniau'r man awyr agored, yn enwedig ar ddŵr agored neu lonydd;

(m) Rhaid archwilio'r safle yn rheolaidd a chadarnhau bod yr amodau hyn yn parhau i gael eu bodloni, gan leihau'r risg o ddod i gysylltiad ag adar gwyllt.

(3) Pan nad yw ceidwad unrhyw anseriformes, ratites neu ddofednod a gedwir ar gyfer ailstocio adar hela yn gallu cadw'r adar hynny yn unol â pharagraff 1 o'r Atodlen hon am resymau lles; a bod eu cadw yn unol â pharagraff 2 o'r Atodlen hon naill ai (i) yn anymarferol, oherwydd maint neu dirwedd y man y mae angen ei orchuddio; neu (ii) yn debygol o gael effaith negyddol ar les yr adar:,

a) nid oes angen cymhwyso paragraffau 1 a 2 o'r Atodlen hon mewn perthynas ag adar o'r fath;

b) rhaid cymhwyso mesurau bioddiogelwch priodol mewn perthynas â'r adar, ar ôl trafod â milfeddyg preifat;

c) o fewn 14 diwrnod i'r datganiad hwn ddod i rym, rhaid i geidwad yr adar neu feddiannydd yr eiddo lle mae'r adar yn cael eu cadw, wneud datganiad ysgrifenedig sydd;

   a. yn nodi'r mesurau bioddiogelwch sy'n cael eu cymryd,

   b. yn rhoi enw a manylion cyswllt y milfeddyg preifat y trafodwyd ag ef, a

   c. yn nodi'r mesurau bioddiogelwch a bennir ym mharagraffau 1 a 2 o'r Atodlen hon nad ydynt yn cael eu cymryd a'r rhesymau pam na ellir eu cymryd.

   d. wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan geidwad yr adar, neu feddiannydd yr eiddo lle mae'r adar yn cael eu cadw

   e. rhaid eu cadw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o ddyddiad y llofnod a sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio ar gais arolygydd neu arolygydd milfeddygol.

(4) Ym mhob achos, rhaid i geidwaid sicrhau eu bod yn diwallu anghenion eu hadar yn unol â Deddf Lles Anifeiliaid 2006.

(5) Ni chaiff neb ryddhau adar hela yn yr ardal a ddisgrifir yn Atodlen 6.